

---

## **Adolygiad o gynnwys i blant: diweddariad**

Asesu darpariaeth rhaglenni plant ar y teledu ac ar-lein  
ar hyn o bryd

---

# Gair am y ddogfen hon

---

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad Ofcom o gynnwys i blant, gan nodi ein prif ganfyddiadau hyd yn hyn a'r camau nesaf.

Mae rhagor o fanylion am yr adolygiad, gan gynnwys y Gwahoddiad i Gyfrannu ac ymatebion, ar gael ar wefan Ofcom.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Newidiadau yn arferion gwyllo plant	10
3. Rôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni plant	15
4. Canfyddiadau	20

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir yr adolygiad

- 1.1 Mae adolygiad Ofcom o gynnwys plant yn canolbwyntio ar sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU yn darparu amrywiaeth o raglenni i blant ar adeg lle mae arferion cynulleidfaoedd yn newid a lle mae plant yn gwyllo mwy a mwy o fideos ar-lein ac ar alwad.<sup>2</sup>
- 1.2 Bydd yr adolygiad a gynhaliwyd i asesu sut y gallwn ddefnyddio'r pŵer newydd yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017, yn rhoi'r pŵer i Ofcom gyhoeddi meini prawf ar gyfer y ddarpariaeth rhaglenni plant, ac, os yw'n briodol, osod cwtâu perthnasol ar gyfer y sianeli gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5).<sup>3</sup>
- 1.3 Roedd ein Gwahoddiad i Gyfrannu<sup>4</sup> yn crynhoi ein tystiolaeth o sut mae defnydd plant o gyfryngau yn esblygu, yn ogystal ag argaeledd rhaglenni plant a thueddiadau'r diwydiant. Fe wnaethom ofyn am fewnbwn mewn perthynas â nifer o gwestiynau ar y thema hon. Cafwyd ymatebion gan amryw o ddarlledwyr, cynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant.
- 1.4 Rydym wedi adolygu'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'n hymchwil ar agweddau plant a'u defnydd o gyfryngau, a data ar fuddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni plant. Yma rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad, gan grynhoi ein prif ganfyddiadau a chanlyniadau a'r camau nesaf.

## Mae arferion gwyllo plant wedi newid yn eu hanfod

- 1.5 Nid dim ond un gynulleidfa ydy plant, ond nifer o gynulleidfaoedd gwahanol. Maen nhw'n amrywio mewn oed i'r rheini sydd heb ddechrau ysgol i'r rheini sydd yn eu harddegau, ac mae ganddyn nhw gefndiroedd, diddordebau, disgwyliaid ac ymddygiadau gwahanol. Mae gan blant ddewis helaeth o ddeunydd i'w wyllo a dulliau o wyllo oherwydd mae amrywiaeth o lwyfannau, apiau a gwasanaethau fideo ar alwad ar gael. Mae plant yn gwyllo llai o deledu byw a mwy o gynnwys ar alwad ac ar-lein. Rhwng 2010 a 2017, bu gostyngiad o 40% yn lefelau gwyllo teledu plant 4-9 oed a 47% i blant 10-15 oed.<sup>5</sup>

---

<sup>2</sup> Y sianeli gwasanaeth cyhoeddus yw'r rheini sy'n darparu gwasanaethau Channel 3, Channel 4, Channel 5, S4C a'r BBC. Er bod pob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd â'r statws hwn. Y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw'r rheini sy'n darparu gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5.

<sup>3</sup> Adran 90 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, gan gyflwyno adran newydd 289A Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/30/part/6/crossheading/provision-of-childrens-programmes/enacted>

<sup>4</sup> Ofcom, 2017. *Gwahoddiad i Gyfrannu: Adolygiad o gynnwys i blant*. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>5</sup> BARB, Rhwydwaith. Holl deledu sy'n cael ei ddarlledu ar setiau teledu. Gwyllo wedi'i gyfuno, gan gynnwys dal-i-fyny 7-niwrnod

- 1.6 Mae twf gwasanaethau ar-lein ac ar-lein ac ar alwad wedi esgor ar lu o fanteision, gan gynnwys amrywiaeth ehangach o gynnwys o bedwar ban bys a rhagor o ryddid o ran pryd a sut mae plant a theuluoedd yn ei wyllo. Mae 71% o blant 5-7 oed a 90% o blant 12-15 oed yn defnyddio YouTube, ac mae Netflix ar gael yn bron i hanner y cartrefi sydd â phlant. Mae ein hymchwil yn dangos mai'r ddau lwyfan yma yw'r cyrchfannau o ddewis i blant hŷn gael amrywiaeth o fathau o gynnwys, fel cynnwys 'sy'n gwneud i chi chwerthin', 'yn rhoi rhywbeth i chi siarad amdano â'ch ffrindiau' neu'n 'eich ysbrydoli chi i roi cynnig ar rywbeth newydd'.<sup>6</sup>
- 1.7 Mae plant yn dal i wyllo rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu a rhai ar-lein, ond y maent hefyd yn treulio eu hamser yn defnyddio mathau newydd o gynnwys. Er enghraifft, mae llawer o blant yn gwyllo fideos 'dad-focsio' ar YouTube, lle mae rhywun yn tynnu teganau allan o'u bocs ac yn chwarae â nhw, neu fideos o bobl yn chwarae gemau cyfrifiadurol neu'n disgrifio eu harferion yn y bore.
- 1.8 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod arferion gwyllo cynulleidfa oed ifanc wedi newid yn ei strwythur – o ran *beth* maen nhw'n ei wyllo a *sut* maen nhw'n ei wyllo. Mae'n anodd deall yr arferion a'r agweddau hyn, o ystyried bod dewis mor helaeth o gynnwys ar gael ar nifer fawr o lwyfannau – ond dim ond ychydig iawn o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd.

## Gall gwyllo cynnwys ar-lein fod o fudd i blant, ond mae'n cynyddu'r risg o wyllo deunydd niweidiol

- 1.9 Er bod llwyfannau ar-lein, fel safleoedd rhannu fideos a chyfryngau cymdeithasol, yn cynnig hyblygrwydd a mynediad at amrywiaeth helaeth o gynnwys, y mae hefyd risgiau uwch mewn perthynas â phlant yn gwyllo cynnwys ar-lein. Mae hyn oherwydd bod y darparwyr hyn yn gweithredu yn unol â lefelau rheoleiddio llawer is yn y DU na'r rheini sydd ar waith ar deledu sy'n cael ei ddarlledu.
- 1.10 O ystyried eu twf cyflym a'r rôl gynyddol bwysig y maent yn ei chwarae ym mywydau pobl ifanc, rydym yn credu y dylai darparwyr ar-lein fod yn fwy atebol mewn perthynas ag amddiffyn er mwyn sicrhau ansawdd cynnwys ar eu gwasanaethau, ac y dylent helpu i leihau'r risg bod plant yn dod i gysylltiad â deunydd niweidiol. Yn ystod tymor yr hydref eleni byddwn yn cyfrannu at y ddadl barhaus ynglŷn â sut gallai rheoleiddio annibynnol chwarae rhan yn y gwaith o helpu i amddiffyn pobl, gan gynnwys plant, pan maent ar-lein.

## Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ran hanfodol i'w chwarae

- 1.11 Yn unol â'u dibenion eang a bennwyd gan y Senedd, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ran arbennig i'w chwarae mewn perthynas â phlant yn y DU. Maent yn lleisiau

---

<sup>6</sup>Ofcom, 2017. *Agweddau a defnydd plant a rhieni o gyfryngau*, tudalen 92. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf)

cyfarwydd y mae pobl yn ymddiried ynddynt ac mae cynulleidfaoedd yn gweld gwerth mawr yn eu rhaglenni.<sup>7</sup> Mae dros ddau draean o blant yn y DU yn gwylio rhaglenni ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus bob wythnos.<sup>8</sup> Felly, mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sylfeini cadarn i ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc arnynt.

- 1.12 Mae'n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn buddsoddi'n barhaus mewn rhaglenni newydd i blant sydd wedi'u creu yn y DU. Mae'n bwysig bod gan blant fynediad at raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu eu bywydau ac yn eu helpu i wneud synnwyr o'r byd mewn ffordd sy'n berthnasol iddyn nhw.
- 1.13 Fel darlledwr sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd ac sydd mewn safle unigryw yn nhirwedd cyfryngau'r DU, rydym yn disgwyl i'r BBC arwain y ffordd yn hynny o beth – ac fe wnaethom gynyddu'r gofynion arni mewn perthynas â rhaglenni plant pan wnaethom bennu Trwydded Weithredu y BBC yn 2017.<sup>9</sup> Ni ellir rhoi'r cyfrifoldeb o ddarparu rhaglenni plant o ansawdd uchel i'r BBC yn unig, fodd bynnag, ac fe ddylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddarparu ffynhonnell arall.

## Canfyddiadau

- 1.14 Mae buddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni plant gwreiddiol wedi bod yn gostwng yn gyson.<sup>10</sup> Mae'r gwariant blynyddol cyfun ar raglenni plant newydd wedi'u creu yn y DU gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng o £116m yn 2006 i £70m yn 2017.<sup>11</sup> Y BBC yw'r prif gyfrannwr o hyd o ran buddsoddiad ac oriau ledled pob genre i blant.
- 1.15 Mae'r ddarpariaeth rhaglenni plant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn amrywio:
- a) Mae **ITV** wedi lleihau nifer y rhaglenni plant o'r DU sydd ar ei phrif sianel – o 158 awr yn 2006 i 47 awr yn 2017. Hefyd, mae gan ITV sianel fasnachol i blant sydd wedi'i hanelu at blant 6-12 oed, sef CITV. Dim ond cyfran fechan o'r rhaglenni a ddangoswyd yn 2017 oedd yn newydd ac wedi'u creu yn y DU.<sup>12</sup>

---

<sup>7</sup> Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl – y DU: 2018*, tudalen 5. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

<sup>8</sup> Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 15 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.

<sup>9</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*, tudalen 44. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf). Daeth yr ystod lawn o ofynion y BBC yng nghyswllt rhaglenni plant i rym yn 2018. Byddwn yn adrodd ar eu perfformiad cyffredinol a'u hamodau blynyddol yn ystod tymor yr hydref y flwyddyn nesaf.

<sup>10</sup> Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl – y DU: 2018*. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

<sup>11</sup> Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r gwariant termau real yn ymwneud â theledu sy'n cael ei ddarlledu ac nid yw'n cynnwys unrhyw wariant ar gynnwys ar-lein i blant. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unrhyw gyllid trydydd parti.

<sup>12</sup> Ffynhonnell: Ofcom/ITV. Yn 2017, 58 allan o'r 5257 awr o raglenni a ddangoswyd ar CITV oedd yn rhai gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf.

- b) Nid yw **Channel 4** yn dangos rhaglenni sydd wedi'u creu'n arbennig ar gyfer plant. Mae dyletswydd ar Channel 4 Corporation (C4C) i ddarparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn (plant 10-14 oed yn ôl diffiniad Channel 4), ac fe ddangoswyd 21 awr o'r cynnwys hwn yn 2017.<sup>13</sup>
- c) Mae **Channel 5** wedi lleihau nifer yr oriau o raglenni wedi'u creu yn y DU sydd wedi'u hanelu'n bennaf at blant cyn-ysgol – o 150 awr yn 2006 i 32 awr yn 2017.<sup>14</sup>
- 1.16 Rydym wedi nodi tri maes penodol sy'n peri pryder yng nghyswllt lefel y ddarpariaeth rhaglenni i blant:
- a) **Mae diffyg rhaglenni plant gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant hŷn ar draws pob genre rhaglen.** Ar hyn o bryd, does dim un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu rhaglenni penodol ar gyfer plant 13-15 oed ac mae tri o bob deg plentyn rhwng 12 a 15 oed yn teimlo nad oes digon o raglenni ar gyfer plant eu hoedran nhw.<sup>15</sup>
- b) **Mae ystod gyfyngedig o raglenni plant sy'n helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas.** Rhaid i'r BBC ddarparu newyddion ar gyfer plant yn benodol, a dyma'r unig ddarparwr sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Ychydig iawn o raglenni ffeithiol sy'n cael eu darlledu gan ddarlledwyr eraill.<sup>16</sup>
- c) **Mae ystod gyfyngedig o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant ar gael sy'n caniatáu i blant y DU weld eu bywydau, yn ei holl amrywiaeth, wedi'i adlewyrchu ar y sgrin.** Mae traean y plant 8-11 oed yn credu nad oes digon o raglenni sy'n dangos plant sy'n byw yn yr un rhan o'r wlad â nhw ac mae 35% yn teimlo nad oes digon o raglenni sy'n dangos plant sy'n edrych yn debyg iddyn nhw.<sup>17</sup>

## Casgliadau

- 1.17 Rydym yn credu bod angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adfywio eu dulliau o ran yn hyn maen nhw'n ei gynnig i gynulleidfa oed ifanc a sut maent yn gwneud hynny.
- 1.18 Mae hynny'n golygu creu mwy o raglenni gwreiddiol o'r DU y mae plant yn eu gwerthfawrogi ac sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bylchau rydym wedi'u nodi. O ystyried y gystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr ar-lein, byddai o fantais tymor hir i'r darlledwyr greu rhaglenni sy'n ysbrydoli ac yn diddannu cynulleidfa oedran ifanc, er mwyn ffurfio perthnasoedd â nhw a fydd yn para gydol eu hoes.

---

<sup>13</sup> Ofcom, 2018. *Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4 2017/18*, tudalen 18. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0012/114402/Letter-Channel-4-Statement-Media-Content-Policy-201718.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/114402/Letter-Channel-4-Statement-Media-Content-Policy-201718.pdf)

<sup>14</sup> Ffynhonnell: Ofcom/Channel 5

<sup>15</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*. Tudalen 97. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf)

<sup>16</sup> Yn 2017, 3 awr o raglenni a oedd yn dod o dan y categori rhaglenni ffeithiol i blant gafodd eu darlledu ar ITV, Channel 4 a Channel 5.

<sup>17</sup> Ofcom, Tachwedd 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*. Tudalen 97

- 1.19 O ganlyniad i'r newid yn arferion gwyllo cynulleidfaoedd ifanc, rydym o'r farn na fyddai pennu cwotâu ar gyfer rhaglenni plant ar y prif sianeli darlledu cyhoeddus masnachol yn ddull effeithiol. Er mwyn cyrraedd plant heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ddarlledwyr fanteisio ar y cyfleoedd mae'r rhyngwrwyd yn eu cynnig er mwyn sicrhau bod plant yn cael mynediad at raglenni o ansawdd uchel, ond mewn ffyrdd sy'n addas ac yn adlewyrchu eu harferion gwyllo.
- 1.20 Rydym yn credu bod darlledwyr mewn safle da i allu ymchwilio i ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd plant, i ddarparu rhaglenni y mae eu heisiau a'u hangen ar blant yn effeithiol. Mae gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus bortffolio a gwasanaethau digidol amrywiol sy'n rhoi sylfaen gref iddynt adeiladu arni.
- 1.21 Gan ystyried yr uchod, rydym wedi gofyn i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus masnachol lunio cynllun sy'n **pennu sut byddant yn cynyddu eu darpariaeth i blant** ar gyfer ein hasesiad, yn unol â'r manylion isod.

## Camau gweithredu a gymerwyd a'r camau nesaf

- 1.22 **Rydym wedi ysgrifennu at ITV, Channel 4 Corporation a Channel 5, yn gofyn iddynt ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'n pryderon fel mater o flaenoriaeth.** Rydym yn disgwyl i gynlluniau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol nodi sut byddant yn gwella eu darpariaeth i blant o ran uchelgais creadigol, buddsoddiad a chymysgedd o genres ledled eu hystod lawn o wasanaethau a llwyfannau. Fel rhan o'r cynlluniau hyn rydym eisiau gweld sut bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn meithrin eu perthnasoedd presennol â chynhyrchwyr, dosbarthwyr a llwyfannau annibynnol, neu'n datblygu partneriaethau creadigol newydd â'i gilydd. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r trafodaethau â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn ystod y misoedd nesaf ac yn disgwyl gweld eu cynlluniau terfynol erbyn tymor y gwanwyn.<sup>18</sup> Bydd pa mor effeithiol yw'r cynlluniau hyn yn dylanwadu ar y broses aildrwyddedu nesaf ar gyfer y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus maes o law.<sup>19</sup> Byddwn hefyd yn edrych ar gynlluniau'r BBC i wella ei rhaglenni ar gyfer plant fel rhan o'n cyfrifoldebau o dan Siarter a Chytundeb y BBC.<sup>20</sup>
- 1.23 **Byddwn yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae plant yn defnyddio cynnwys ar-lein.** Mae heriau o ran deall defnydd plant a phobl ifanc o lwyfannau ar-lein a dim ond ychydig o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd.<sup>21</sup> Rydym yn bwriadu cynnal ymchwil ansoddol a manwl i rôl y llwyfannau hyn, gan gynnwys sut mae plant yn dewis rhwng ffynonellau cynnwys, yn ogystal â sut maent yn defnyddio cynnwys ac yn gwneud penderfyniadau yn ei gylch wrth ddefnyddio'r ffynonellau hyn. Bydd hyn yn sail i'n trafodaethau parhaus â'r

---

<sup>18</sup> Yn Neddf yr Economi Ddigidol, fe gyflwynwyd gofyniad bod C4C yn cynhyrchu Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau ('Datganiad') blynyddol yn nodi sut aeth ati i gyflawni ei gylch gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol a sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn sydd i ddod. Wrth baratoi'r Datganiad, rhaid i C4C ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom ac ymgynghori ag Ofcom. [Byddwn yn asesu darpariaeth C4C ar gyfer plant hyn wrth adolygu eu Datganiad yn 2019.](#)

<sup>19</sup> Bydd trwyddedau sianeli 3, 4 a 5 yn dod i ben yn 2024.

<sup>20</sup> BBC, 2017. *Siarter a Chytundeb*. Ar gael yn:

[https://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory\\_framework/charter\\_agreement.html](https://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory_framework/charter_agreement.html)

<sup>21</sup> Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'n hymchwil meintiol presennol ar ddefnydd plant o lwyfannau ar-lein a'u hagwedd tuag atynt.



## Pennyn

llwyfannau a'r darlledwyr. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad gyda eiriolwyr, academyddion, darlledwyr a chynhyrchwyr cysylltiedig â phlant yn nes ymlaen eleni er mwyn parhau i ymestyn y ddadl ynglŷn â sut mae plant o bob oedran yn archwilio'u hunaniaeth drwy gyfryngau ac yn eu dysgu eu hunain am y byd o'u cwmpas.

## 2. Cefndir yr adolygiad

### Pwrpas yr adolygiad

- 2.1 Lansiodd Ofcom adolygiad o gynnwys i blant ar 29 Tachwedd 2017 er mwyn ystyried y rhaglenni sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd i blant dan 16 oed a newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd. Mae'r adolygiad wedi cael ei fframio o fewn ein dyletswydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach i ystyried a yw gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (o'u hystyried gyda'i gilydd) yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol ac o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc.<sup>22</sup>
- 2.2 Roedd yr adolygiad hefyd yn asesu sut gallem ddefnyddio'r pŵer newydd yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017. Roedd Deddf yr Economi Ddigidol yn rhoi pŵer i Ofcom gyhoeddi meini prawf ar gyfer darparu rhaglenni plant a gosod amodau ar y sianeli gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (gwasanaethau Sianel 3, Sianel 4 a Sianel 5) rydym yn credu sy'n briodol i sicrhau bod eu rhaglenni plant yn bodloni'r meini prawf.<sup>23</sup>

### Ein gwaith hyd yma

- 2.3 Yn ystod haf 2017, fe wnaethom gynnal cyfres o drafodaethau gyda rhanddeiliaid yng Nghaerdydd, Belfast, Glasgow, Llundain a Manceinion gydag amrywiaeth o ddarlledwyr a chynhyrchwyr. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i ni glywed safbwyntiau gan drawstoriad o'r diwydiant a chasglu gwybodaeth, er enghraifft, ynghylch cymhlethdod a sialensiau ariannu cynyrchiadau, a sut mae natur comisiynu yn amrywio rhwng darlledwyr.
- 2.4 Ddiwedd mis Tachwedd 2017, fe wnaethom gyhoeddi Gwahoddiad i Gyfrannu, a oedd yn cynnwys cyfres o gwestiynau ochr yn ochr â chrynodeb o'n dealltwriaeth bresennol o agweddau plant a'u harferion o ran gwyllo rhaglenni teledu, yn ogystal â data ar ddarpariaeth i blant ar hyn o bryd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
- 2.5 Cawsom 19 ymateb i'n Gwahoddiad i Gyfrannu gan amrywiaeth o ddarlledwyr, cynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant. Mae modd gweld yr ymatebion llawn ar wefan Ofcom.<sup>24</sup>
- 2.6 Mae ymatebion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn nodi faint o gynnwys i blant maen nhw'n ei ddarparu ar hyn o bryd.<sup>25</sup> Maen nhw'n poeni y gallai unrhyw ymyriad

---

<sup>22</sup> Adran 264(6)(h) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r rheini sy'n darparu gwasanaethau Sianel 3, Sianel 4, Sianel 5, S4C a'r BBC. Er bod holl sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd â'r statws hwn.

<sup>23</sup> Adran 90 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, gan gyflwyno adran newydd 289A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/30/part/6/crossheading/provision-of-childrens-programmes/enacted>

<sup>24</sup> Ofcom, 2017. *Gwahoddiad i Gyfrannu: Adolygiad o gynnwys i blant*. Ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>25</sup> Ymatebion ITV, Channel 4 Corporation, Viacom. Mae holl ymatebion y rhanddeiliaid ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

rheoleiddiol mewn rhaglenni plant fygwth eu gallu i gyflawni ymrwymiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill, gan ddadlau na fyddai rhwymedigaethau ychwanegol yn fforddiadwy oni bai eu bod yn cael eu cydbwysio ag addasiadau i'r rhai cyfredol, er enghraifft cwotâu newyddion. Mae'r BBC yn tanlinellu yn ei ymateb y rhan bwysig mae'n ei chwarae drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys ar gyfer plant ac mae'n nodi bod rhai darparwyr masnachol yn darparu mwy o gynnwys ar gyfer plant y DU. Mae'r BBC hefyd yn tynnu sylw at yr angen i allu canfod a gwylio'r cynnwys ar gyfer plant yn hawdd.<sup>26</sup>

2.7 Mae ymateb y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol (COBA) yn rhoi tystiolaeth i ddangos bod sianeli masnachol nad ydyn nhw'n rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn buddsoddi mewn cynnwys i blant yn y DU ar gyfer eu sianeli, er bod y buddsoddiad yma'n cael ei briodoli'n aml i'w sianeli heb fod i'r DU.<sup>27</sup> Yn wahanol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, nid ydy'r rhan fwyaf o sianeli masnachol i blant ar gael am ddim.

2.8 Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid eraill yn mynegi pryderon am lefel ac ystod y ddarpariaeth gyfredol i blant. Mae cyrff y diwydiant cynhyrchu yn canolbwyntio ar y gostyngiad mewn buddsoddiad mewn cynnwys newydd yn y DU a risgiau hyn i iechyd y sector cynhyrchu rhaglenni plant.<sup>28</sup> Mae cymdeithas sifil a rhanddeiliaid academiaidd yn dadlau bod angen cwotâu i fynd i'r afael â'r gostyngiad hwn mewn amrywiaeth o genres, gan eu bod yn credu ei bod hi'n bwysig i blant yn y DU i weld eu bywydau'n cael ei adlewyrchu mewn cynnwys teledu.<sup>29</sup> Mae nifer o'r rhanddeiliaid hyn hefyd yn mynegi siom nad ydy Ofcom yn gallu cael gafael ar ddata manylach ynghylch agweddau ac ymddygiad plant mewn perthynas â chyfryngau, yn enwedig o ran yr hyn mae plant yn cael gafael arno ar-lein a'r rhesymau pam.<sup>30</sup>

## Ymchwil a ffynonellau data

2.9 Mae gan Ofcom ystod o ymchwil a data a oedd yn darparu'r sail ar gyfer yr Adolygiad. Y prif ffynonellau oedd ein hadroddiadau blynyddol ar *Plant a Rhieni: Agweddau a Defnydd o Gyfryngau* yn ogystal â monitro allbwn a buddsoddiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus.<sup>31</sup>

2.10 Mae'r adroddiad *Agweddau a Defnydd o Gyfryngau* yn dangos bod y mathau o gynnwys mae plant yn cael gafael arno, a sut maen nhw'n cael gafael arno, yn newid yn gyflym. Roedd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad 2017 yn cynnwys: 1,388 o gyfweiliadau yn y cartref gyda rhieni a phlant 5-15 oed; 677 o gyfweiliadau gyda rhieni plant 3-4 oed; ac

---

<sup>26</sup> Ymateb y BBC. Mae'r holl ymatebion gan randdeiliaid ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>27</sup> Ymateb y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol.

<sup>28</sup> Gweler ee tudalen 3 ymateb Pact.

<sup>29</sup> Gweler ee tudalen 9 ymateb Jeanette Steemers; tudalen 3 ymateb y Public Media Alliance.

<sup>30</sup> Gweler ee tudalen 3 ymateb VLV; tudalennau 2-3 ymateb y Children's Media Foundation.

<sup>31</sup> Mae'r ffigurau sy'n cael eu defnyddio drwy'r adroddiad yma ar gyfer allbwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac mae'r gwariant yn cyfeirio at gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rhwydwaith, heb gynnwys rhaglenni ar gyfer y gwledydd/rhanbarthau, rhaglenni S4C na BBC Alba. Dydy sianeli portffolio'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac eithrio rhai'r BBC, ddim yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Nid ydy'r ffigurau chwaith yn cynnwys gwariant ac oriau ar unrhyw gynnwys ar-lein yn unig.

astudiaeth ar-lein gyda 500 o blant 12-15 oed.<sup>32</sup> Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi mwy o ddata diweddar ar agweddau plant 12-15 tuag at newyddion a'u defnydd o newyddion.

- 2.11 Mae'r diweddariad hwn hefyd yn defnyddio data gwyllo a gynhyrchwyd gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB). Oni nodir fel arall, mae'r ffigurau a roddir ar gyfer gwyllo teledu wedi'i ddarlledu, ar set deledu, hyd at saith niwrnod ar ôl y darllediad cyntaf.<sup>33</sup>
- 2.12 Mae ein dadansoddiad o fuddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos gostyngiad mewn buddsoddiad sy'n benodol ar gyfer rhaglenni plant ond o bosibl rhan gynyddol bwysig ar gyfer cyllid trydydd parti. Mae ein data diweddaraf am y diwydiant ar gael yn adroddiad *Cyfryngau'r Genedl 2018* Ofcom.<sup>34</sup>
- 2.13 Roedd yr ymatebion i'r Gwahoddiad i Gyfrannu yn ategu'r data a'r sail dystiolaeth a amlinellir uchod, a gyda'i gilydd roedd y rhain yn cyfrannu at ein safbwynt. Mae'r diweddariad hwn yn crynhoi ein prif ganfyddiadau, ein casgliadau a'r camau nesaf.

---

<sup>32</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, Adran 2. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research/childrens/children-parents-2017>. Gweler Adran 3 i gael rhagor o fanylion am fethodoleg.

<sup>33</sup> Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl: DU 2018*, tudalen 24. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

<sup>34</sup> Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl: DU 2018*.

## 3. Newidiadau yn arferion gwyllo plant

### Mae plant yn gynulleidfa amrywiol o wahanol oedrannau, ymddygiadau ac anghenion

- 3.1 Roedd ein Gwahoddiad i Gyfrannu yn dangos nad dim ond un gynulleidfa ydy plant ond nifer o rai gwahanol. Maen nhw'n amrywio mewn oed o'r rheini sydd heb ddechrau ysgol i'r rheini sydd yn eu harddegau, ac mae ganddyn nhw gefndiroedd, diddordebau, disgwyladau ac ymddygiadau gwahanol. Wrth i blant fynd yn hŷn, a symud rhwng gwahanol gamau mewn bywyd ac addysg, mae eu hymddygiad, eu hanghenion a'u dymuniadau yn newid hefyd.
- 3.2 Caiff y cymhlethdod hwn ei adlewyrchu yn sut mae darparwyr cynnwys gwahanol, rhaglenni ymchwil ac offer mesur yn grwpio cynulleidfaoedd ifanc mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n wir ym mhob oed ydy'r newidiadau mawr yn eu harferion gwyllo. Yn yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar sut mae'r arferion hyn yn newid, yn benodol cynulleidfaoedd ifanc yn symud at gynnwys ar-alw ac ar-lein.

### Mae plant yn treulio llai o amser yn gwyllo teledu a ddarlledir ar set deledu

- 3.3 Mae faint o amser mae plant yn ei dreulio'n gwyllo teledu wedi'i ddarlledu ar set deledu yn disgyn. Mae ffigurau gwyllo BARB yn dangos yn 2017 bod plant 4-15 oed wedi gwyllo deg awr o deledu wedi'i ddarlledu bob wythnos, a oedd wedi disgyn dros saith awr yr wythnos ers 2011.<sup>35</sup> Roedd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog teledu a ddarlledir ar gyfer plant 4-15 oed yn 2017 yn 82.5%, a oedd bron i ddeg pwynt canran yn is na 2011.<sup>36</sup>
- 3.4 Fodd bynnag, yn ogystal â'r deg awr o gynnwys teledu wedi'i ddarlledu sy'n cael ei wyllo bob wythnos, ar gyfartaledd roedd plant hefyd wedi gwyllo 23 munud o raglenni dal-i-fyny rhwng 8 a 28 diwrnod ar ôl y darllediad, a chwe awr o wyllo anhysbys (unmatched viewing) yr wythnos. Mae gwyllo anhysbys yn cynnwys tanysgrifiadau fideo ar-alw fel Netflix, apiau ar deledu clyfar, gwyllo rhaglenni fwy na 28 diwrnod ar ôl iddyn nhw gael eu darlledu, DVDs a gemau. Ar gyfartaledd, mae gwyllo anhysbys yr wythnos ymysg plant wedi cynyddu 24% wrth gymharu â 2016 .
- 3.5 Fel mae Ffigur 1 yn ei ddangos, mae'r gwyllo ymysg plant hŷn (10-15 oed) wedi disgyn dros y blynyddoedd diwethaf yn gyflymach nag ar gyfer grwpiau oed eraill. Yn 2010, roedd plant 10-15 oed yn gwyllo 144 munud o deledu bob dydd, erbyn 2017 roedd hyn bron wedi haneru i 77 munud. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 94 munud y dydd ar gyfer plant 4-9 oed yn 2017.<sup>37</sup>


---

<sup>35</sup> Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, munudau dyddiol ar gyfartaledd y pen o gyfanswm teledu.

<sup>36</sup> Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd %. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 15 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.

<sup>37</sup> Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, munudau dyddiol ar gyfartaledd y pen o gyfanswm teledu.

**Ffigur 1: Cyfanswm gwyllo teledu bob dydd ar gyfartaledd yn ôl grŵp oed (mewn munudau): 2010-2017**



Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith, munudau dyddiol ar gyfartaledd y pen o gyfanswm teledu.

3.6 Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae mwy na naw plentyn o bob deg ym mhob grŵp oed yn dweud eu bod yn gwyllo teledu ar set deledu.<sup>38</sup> Yn ein hymchwil ansoddol, dywedodd plant wrthym hefyd pa mor bwysig yw treulio amser yn gwyllo rhaglenni a’u trafod â’u teuluoedd a’u ffrindiau.<sup>39</sup>

### Mae plant yn gwyllo mwy a mwy o gynnwys ar amrywiaeth o ddyfeisiau, ac ar-alw ac ar-lein

3.7 Mae twf gwasanaethau ar-alw ac ar-lein wedi esgor ar lu o fanteision i blant, gan gynnwys amrywiaeth ehangach o gynnwys a rhagor o hyblygrwydd o ran pryd a sut mae plant a theuluoedd yn ei wyllo.

3.8 Er mai’r set deledu ydy’r ddyfais fwyaf cyffredin o hyd ar gyfer gwyllo rhaglenni teledu, mae plant yn cael gfael ar fwy a mwy o gynnwys ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Yn 2017, roedd 58% o blant 5-15 oed yn dweud eu bod wedi defnyddio dyfais ar wahân i set deledu i wyllo rhaglenni teledu, i fyny o 45% yn 2013.<sup>40</sup> Roedd ein hymchwil wedi canfod bod plant

<sup>38</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, tudalen 52. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf)

<sup>39</sup> Ofcom, 2017. *Y Cyfryngau ym Mywyd Plant – Canfyddiadau Blwyddyn 4*, tudalen 22.

<sup>40</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, tudalen 51.

5-15 oed yn amcangyfrif eu bod yn treulio mwy o amser ar-lein bob wythnos (15 awr 18 munud) neu'n defnyddio eu ffôn symudol (15 awr chwe munud) nag yn gwyllo teledu ar set deledu (14 awr).<sup>41</sup>

- 3.9 Mae'r cynnydd yn y nifer sydd â ffonau clyfar a dyfeisiau tabled, a chyflymderau band eang cyflymach, yn ei gwneud hi'n haws i gynulleidfaeod ifanc gael gafael ar ddarparwyr cynnwys ar-alw ac ar-lein.<sup>42</sup> Mae pedwar deg pump y cant o gartrefi â phlant yn defnyddio o leiaf un gwasanaeth tanysgrifiad fideo ar-alw, ac mae 38% o gartrefi sydd â phlant yn defnyddio Netflix a 16% yn defnyddio Amazon Prime.<sup>43</sup>

## Mae YouTube a Netflix yn dod yn bwysicach, yn enwedig i blant hŷn

- 3.10 Mae YouTube bellach yn cael ei ddefnyddio gan 71% o blant 5-7 oed gan godi i 90% o blant 12-15 oed. O blith plant 12-15 oed, mae 48% yn dweud mai YouTube ydy'r brand cynnwys y bydden nhw'n gweld ei golli fwyaf, wedi'i ddilyn gan 19% yn dweud Netflix. Mae plant 8-11 oed a 12-15 oed hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn well ganddynt wyllo YouTube na rhaglenni teledu ar set deledu (40% o'i gymharu â 18% ar gyfer plant 8-11 oed, 46% o'i gymharu â 15% ar gyfer plant 12-15 oed).<sup>44</sup>
- 3.11 YouTube a Netflix ydy'r dewis cyntaf bellach ar gyfer nifer o blant hŷn ar draws amrywiaeth o fathau o gynnwys, fel cynnwys sy'n gwneud i chi chwerthin (61% YouTube, 11% Netflix), sy'n rhoi rhywbeth i chi sôn amdano gyda'ch ffrindiau (58% YouTube, 18% Netflix) neu sy'n eich ysbrydoli i roi cynnig ar rywbeth newydd (52% YouTube).<sup>45</sup>
- 3.12 Mae gwasanaethau ar-alw ac ar-lein yn darparu ystod nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen o gynnwys sy'n galluogi cynulleidfaeod ifanc i archwilio a rhannu eu diddordebau. Mae plant yn dal i wyllo rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu a rhai ar-lein, ond maen nhw hefyd yn treulio eu hamser yn defnyddio mathau newydd o gynnwys. Er enghraifft, mae 20% o blant 5-15 oed yn gwyllo fideos 'tynnu allan o'r boc' ar YouTube, lle caiff teganau eu tynnu allan o'u pecyn a'u defnyddio, ac mae 39% yn gwyllo fideos o bobl yn chwarae gemau cyfrifiadurol.<sup>46</sup> Mae ein hymchwil yn dangos mai nid dim ond lle i wyllo cynnwys ydy YouTube ond ei fod hefyd yn lle o ysbrydoliaeth i blant sydd eisïau datblygu eu hobiau creadigol neu ddysgu mwy am eu diddordebau.<sup>47</sup>
- 3.13 Mae plant yn gwerthfawrogi gallu dewis beth maen nhw'n ei wyllo ac mae gwasanaethau ar-lein yn rhoi cyfoeth o gynnwys o'r DU ac o weddill y byd i blant, sydd ar gael i'w gwyllo ar-alw. Mae rhanddeiliaid yn nodi bod plant yn chwilio am gynnwys yn annibynnol ar

---

<sup>41</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, tudalen 22.

<sup>42</sup> Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl y DU: 2018* tudalen 13. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

<sup>43</sup> Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2018. Sail: pob cartref â phlant (948)

<sup>44</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, adran 7. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf)

<sup>45</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, tudalen 92.

<sup>46</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, tudalen 85.

<sup>47</sup> Ofcom, 2017. *Y Cyfryngau ym Mywyd Plant – Canfyddiadau Blwyddyn 4*. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0022/108283/children-media-lives-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/108283/children-media-lives-2017.pdf)

lwyfannau ar-lein a bod YouTube yn arbennig o dda am ddarparu cynnwys sy'n adlewyrchu diddordebau personol plant.<sup>48</sup>

## Ond nid oes gennym y darlun llawn o'r hyn mae plant yn ei wyllo ar-lein

- 3.14 Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i hadolygu yn awgrymu bod arferion gwyllo cynulleidfaoedd ifanc wedi newid yn sylweddol – o ran beth maen nhw'n ei wyllo a sut maen nhw'n ei wyllo. Rydym wedi darparu crynodeb o'r prif benawdau o'n hymchwil ynghylch sut mae plant yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio llwyfannau cynnwys gwahanol, gan gynnwys Netflix ac YouTube, yn Atodiad 1.<sup>49</sup>
- 3.15 Fodd bynnag, mae hi'n dal yn anodd deall arferion gwyllo plant yn llawn ar draws pob llwyfan gan nad oes llawer iawn o ddata ar gael yn gyhoeddus ynghylch defnyddio'r llwyfannau ar-lein hyn, mewn ffordd sy'n golygu bod modd i ni gymharu â'r data sydd gennym ar ddefnyddio teledu darlledu. Rydym yn amlinellu ein cynlluniau ymchwil ar y pwnc hwn yn nes ymlaen yn y diweddariad.

## Gallai gwyllo ar-lein gynyddu'r risgiau bod plant yn gweld deunyddiau niweidiol

- 3.16 Mae nifer o randdeiliaid yn awgrymu bod gan rieni bryderon am ddiogelwch a lles eu plentyn ar-lein.<sup>50</sup> Mae rhai yn nodi hefyd bod darparwyr ar-lein yn gweithredu o dan lefel is o lawer o reolaeth rheoleiddio yn y DU na theledu darlledu<sup>51</sup> ac roeddent yn mynegi pryderon ynghylch plant yn gweld mwy a mwy o gynnwys ar-lein sydd heb ei reoleiddio ac a allai fod yn niweidiol.<sup>52</sup>
- 3.17 Mae teledu llinol yn cael ei reoleiddio mewn ffordd nad yw'n berthnasol i gynnwys ar-lein; mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r Cod Darlledu<sup>53</sup> sy'n gosod amrywiaeth o safonau gan gynnwys sicrhau bod cynnwys sydd wedi'i dargedu at blant, neu sy'n cael ei ddarlledu cyn 9pm, yn briodol i'r cynulleidfaoedd ieuengaf. Byddem hefyd yn nodi ei bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-alw yn y DU sicrhau nad ydy plant yn gallu cael gafael ar

---

<sup>48</sup> Gweler ee ymateb Boom Cymru tudalen 3, ymateb Beano Studios tudalen 2, ymateb Mediawatch-UK tudalen 1, ymateb Girlguiding tudalen 4. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>49</sup> Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0015/116520/Annex-Research-Childrens-Content-Consumption.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/116520/Annex-Research-Childrens-Content-Consumption.pdf)

<sup>50</sup> Gweler ee, ymateb Beano Studios tudalen 2, CMF, ymateb Public Media Alliance tudalen 3, ymateb Mediawatch-UK tudalen 1. Mae'r holl ymatebion gan randdeiliaid ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>51</sup> Gweler ee, ymateb COBA tudalen 6, ymateb ITV tudalen 10, ymateb Viacom tudalen 5.

<sup>52</sup> Gweler, ee, ymateb Beano Studios tudalen 11, ymateb yr Ymddiriedolaeth Darlledu Ryngwladol tudalen 11, ymateb y Public Media Alliance tudalen 3, ymateb VLV tudalen 7.

<sup>53</sup> Cod Darlledu Ofcom, ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code>



gynnwys pornograffig a chynnwys arall sy'n debygol o effeithio'n ddifrifol ar eu datblygiad.<sup>54</sup>

- 3.18 Mae rhai rhanddeiliaid yn nodi nad ydy rhai plant yn gallu gwahaniaethu rhwng darparwyr gwahanol. Er enghraifft, iddyn nhw mae rhaglen deledu ar set deledu a rhaglen ar Netflix neu YouTube yr un math o gynnwys.<sup>55</sup> Nid ydy plant a rhieni o reidrwydd bob amser yn gwybod sut mae darparwyr a llwyfannau gwahanol yn darparu lefelau gwahanol o warchodaeth, a allai gynyddu'r perygl o blant yn gweld cynnwys niweidiol.
- 3.19 O ystyried eu twf cyflym a'r rôl gynyddol bwysig maen nhw'n ei chwarae ym mywydau pobl ifanc, rydym yn credu y dylai darparwyr ar-lein fod yn gwneud mwy a bod yn fwy atebol mewn perthynas â diogelu ansawdd cynnwys ar eu gwasanaethau, ac y dylent helpu i leihau'r risg bod plant yn dod i gysylltiad â deunydd niweidiol. Yn ystod tymor yr hydref eleni byddwn yn cyfrannu at y ddadl barhaus ynglŷn â sut gallai rheoleiddio annibynnol chwarae rhan yn y gwaith o helpu i amddiffyn pobl, gan gynnwys plant, pan maen nhw ar-lein.

---

<sup>54</sup> Ofcom, Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/on-demand-programme-service-rules>

<sup>55</sup> Gweler, ee, ymateb Beano Studios, tudalen 4. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0010/112213/Beano-Studios.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/112213/Beano-Studios.pdf)

## 4. Rôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni plant

### Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ran hanfodol i'w chwarae

- 4.1 Yn unol â'u dibenion eang a bennwyd gan y Senedd Brydeinig, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ran arbennig i'w chwarae mewn perthynas â phlant yn y DU. Mae strategaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer plant yn targedu cymysgedd o ystodau oed gwahanol: mae Channel 5 yn dangos rhaglenni plant sydd wedi'u hanelu at blant 2-7 oed; mae CBeebies wedi'i dargedu at blant dan 6 oed; mae ITV a CBBC yn targedu plant 6-12 oed; ac mae Channel 4 Corporation (C4C) yn gwneud rhaglenni sy'n apelio at blant hŷn, wedi'u diffinio gan C4C fel plant 10-14 oed, a rhaglenni addysgol ar gyfer oedolion ifanc, wedi'u diffinio gan C4C fel pobl ifanc 14-19 oed.
- 4.2 Gyda'i gilydd, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn lleisiau cyfarwydd yr ymddiriedir ynddyn nhw mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym ac mae dros wyth o bob deg (83%) o rieni a gofawyr plant sy'n gwyllo sianeli plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rheolaidd yn dweud bod darpariaeth rhaglenni plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig.<sup>56</sup> Er bod faint o deledu mae plant yn ei wyllo ar set deledu wedi disgyn, mae cyfran darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'r gwyllo hwnnw wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.<sup>57</sup> Mae dwy ran o dair o blant yn y DU yn dal i wyllo rhywfaint o raglenni ar sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob wythnos.<sup>58</sup>

### Mae hi'n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu amrywiaeth o gynnwys o ansawdd i gynulleidfaeod ifanc

- 4.3 Dylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus sicrhau ei bod hi'n hawdd i gynulleidfaeod ar draws y DU gael gafael am ddim ar amrywiaeth eang o gynnwys newydd o'r DU, sy'n darparu canlyniadau pwysig. Gyda'i gilydd mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyfrifoldeb i sicrhau bod nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc.<sup>59</sup> Roeddem wedi ystyried i ba raddau mae'r ddarpariaeth bresennol yn cyflawni'r dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel y nodwyd gan y Senedd Brydeinig, a'r nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a ddatblygwyd gan Ofcom a chaiff hyn ei grynhoi yn Ffigur 2.<sup>60</sup>

---

<sup>56</sup> Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl – y DU: 2018*, tudalen 5. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

<sup>57</sup> Yn 2010 roedd cyfran gyfun darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o blant 4-15 oed yn 48%, yn 2017 roedd hyn wedi disgyn ychydig i 42%. Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith. % o'r holl oriau gwyllo.

<sup>58</sup> 67%. Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 15 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.


<sup>59</sup> Adran 264(6)(h) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

<sup>60</sup> Cafodd y rhain eu nodi am y tro cyntaf yn adolygiad cyntaf Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ofcom, 2005.

Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Cam 3 – Cystadleuaeth i Sicrhau Ansawdd,

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/15911/psb3.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/15911/psb3.pdf), Adran 1

**Ffigur 2: Dibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus**



- 4.4 Mae'n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn buddsoddi'n barhaus mewn rhaglenni newydd i blant sydd wedi'u creu yn y DU. Mae hi'n bwysig bod plant yn gallu cael gafael ar raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu eu bywydau ac sy'n berthnasol i'w bywydau. Dylai cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus i blant adlewyrchu eu cam nhw mewn bywyd, eu helpu i ffurfio barn, cyflwyno lleisiau amrywiol iddyn nhw a'u cyflwyno i ddidordebau a safbwyntiau newydd mewn ffordd sy'n briodol o ran oed a diwylliannau a gwneud hynny mewn ffordd sy'n ddifyr ac yn diddanu.
- 4.5 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mynd ati'n bennaf i ddarparu rhaglenni i blant drwy sianeli penodol, neu yn ystod cyfnodau penodol ar yr amserlen ar wahanol sianeli, fel a ganlyn:
- i) Mae gan y BBC ddwy sianel sy'n darlledu i blant: CBBC ar gyfer plant rhwng 6 a 12 oed, a CBeebies ar gyfer plant hyd at 6 oed. Mae'r BBC hefyd yn darparu rhaglenni plant ar BBC Alba, a rhai ar BBC One a BBC Two.
  - ii) Mae ITV yn cyd-ddarlledu rhaglenni plant ar CITV (sianel gwbl fasnachol ar gyfer plant rhwng 6 ac 12 oed) rhwng 6.00am a 9.25am ar ddydd Sadwrn a dydd Sul dros y gaeaf, a hyd at 8.25am rhwng mis Ebrill a mis Medi.
  - iii) Mae cylch gwaith Channel 4 yn mynnu bod y darlledwr yn darparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn, ac mae'n ceisio gwneud hynny drwy raglenni yn ystod oriau brig a chyn 9pm ar ei brif sianel. Mae'r rhaglenni hyn yn rhoi sylw i themâu sy'n taro tant â phlant rhwng 10 ac 14 oed, ond maen nhw hefyd yn apelio at gynulleidfa ehangach, fel *Ackley Bridge*.
  - iv) Mae Channel 5 yn darlledu rhaglenni plant o dan y brand 'Milkshake!', sy'n targedu cynulleidfaoedd cyn oed ysgol, rhwng 6.00am a 9.15am bob diwrnod yn ystod yr wythnos. Mae ganddo hefyd slot hirach, rhwng 6.00am a 10.35am fel arfer, ar benwythnosau.
- 4.6 Mae'r pŵer newydd yn y Ddeddf yn berthnasol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, fodd bynnag mae'r BBC, fel y prif ddarparwr rhaglenni plant, yn gyd-destun pwysig. Rydym hefyd yn nodi bod S4C yn darparu amrywiaeth o raglenni plant yn Gymraeg.

Fel rheol mae S4C yn darparu rhaglenni plant rhwng 6.00am a 12.00am a rhwng 4.00pm a 6.00pm yn ystod yr wythnos, a rhwng 6.00am a 10.00am ar ddydd Sadwrn a rhwng 6.00am a 9.00am ar ddydd Sul, ac mae'n darparu rhaglenni i blant o bob oed.

- 4.7 Fel darlledwr sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus ac sydd â safle unigryw yn nhirwedd cyfryngau'r DU, rydym yn disgwyl i'r BBC arwain y ffordd drwy gynhyrchu rhaglenni plant o ansawdd uchel. Yn Nhrwydded Gweithredu'r BBC, mae Ofcom wedi cynyddu'r gofynion ar y BBC ar gyfer rhaglenni plant i sicrhau bod plant yn cael lefel sylfaenol o raglenni plant ar draws amrywiaeth o oedranau a genres gwahanol.<sup>61</sup> Byddwn yn edrych ar gynlluniau'r BBC i ddarparu ar gyfer plant fel rhan o'n cyfrifoldebau o dan Siarter a Chytundeb y BBC.<sup>62</sup>
- 4.8 Ni ellir rhoi'r cyfrifoldeb o ddarparu rhaglenni plant o ansawdd uchel i'r BBC yn unig, fodd bynnag, ac fe ddylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddarparu ffynhonnell arall. Mae'r Senedd Brydeinig yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer rhaglenni plant ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae hyn yn sicrhau rhywfaint o ddewis i wylwyr a chystadleuaeth greadigol.

## Mae darlledwyr yn dweud wrthym fod heriau o ran darparu rhaglenni plant

- 4.9 Mae darlledwyr masnachol yn dweud wrthym fod yr elw ariannol yn gyfyngedig ac yn disgyn ar draws pob genre plant, a bod buddsoddi mewn rhaglenni plant wedi dod yn risg uwch dros amser. Maen nhw'n dadlau bod economeg cynhyrchu cynnwys i blant yn heriol yn y farchnad gyfredol, oherwydd yr elw masnachol cyfyngedig wrth ystyried maint posibl y gynulleidfa a'r cyfyngiadau o ran hysbysebu.<sup>63</sup> Mae C4C hefyd yn nodi bod y rheoliadau preifatrwydd sy'n diogelu plant dan 13 oed yn cyfyngu rhagor ar bosibilrwydd codi referniw o raglenni plant ar-lein. Mae ITV yn datgan ei bod yn gallu bod yn anodd gwerthu rhaglenni plant yn rhyngwladol os ydy'r rhaglenni wedi cael eu targedu'n benodol at gynulleidfa yn y DU.<sup>64</sup>
- 4.10 Mae rhai rhanddeiliaid yn dadlau ac ystyried cymhellion ariannol gallu gwerthu'r cynnwys i wledydd eraill, y bydd cynnwys y DU yn dod yn fwy rhyngwladol ac yn llai cynrychioliadol os caiff pethau eu gadael i'r farchnad.<sup>65</sup>
- 4.11 Mae nifer o randdeiliaid yn cefnogi cronfa gan y Llywodraeth y byddai modd cystadlu amdani a allai ddarparu rhywfaint o gefnogaeth ariannol er mwyn buddsoddi ymhellach mewn rhaglenni plant.<sup>66</sup> Rhagwelir y byddai'r gronfa yn rhaglen beilot, a fyddai'n darparu

---

<sup>61</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU*. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf). Nodyn: daeth y gofynion hyn i rym o fis Ionawr 2018 neu o fis Ebrill 2018 ar gyfer amodau blwyddyn ariannol.

<sup>62</sup> BBC, 2017. *Siarter a Chytundeb*. Ar gael yn: [https://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory\\_framework/charter\\_agreement.html](https://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory_framework/charter_agreement.html)

<sup>63</sup> Gweler ee, ymateb Beano Studios tudalen 10, ymateb Channel 4 tudalen 1, ymateb Viacom tudalen 3, ymateb ITV tudalen 14. Mae'r holl ymatebion gan randdeiliaid ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>64</sup> ymateb ITV tudalen 14.

<sup>65</sup> Gweler, ee, ymateb Pact tudalen 8.

<sup>66</sup> Gweler ee ymateb Animation UK tudalen 4, ymateb VLV, tudalen 3.

£60m dros tair blynedd.<sup>67</sup> Cawn ar ddeall y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno rhagor o fanylion ynghylch y gronfa maes o law.

---

<sup>67</sup> Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Rhagfyr 2017. *£60 miliwn yn hwb i deledu plant yn y DU*. <https://www.gov.uk/government/news/60-million-boost-to-uk-childrens-television>. Cyrchwyd 17 Gorffennaf 2018

## 5. Canfyddiadau


5.1 Mae'r adran hon yn crynhoi ein canfyddiadau ar ddarparu rhaglenni plant gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyntaf rydym yn trafod buddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni plant, cyfraniad rhaglenni prif ffrwd, a rhaglenni yn ôl grŵp oed. Byddwn wedyn yn canolbwyntio ar feysydd sy'n achosi pryder, ar ôl adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys yr ymatebion gan randdeiliaid i'n Gwahoddiad i Gyfrannu.

### Mae'r buddsoddiad mewn rhaglenni plant yn dal i ddisgyn

5.2 Mae cyfanswm y buddsoddiad mewn rhaglenni plant yn y DU ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddisgyn fel y gwelwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwariant blynyddol ar y cyd wedi disgyn o £144m yn 2006 i £81m yn 2017 mewn termau real.<sup>68</sup>

5.3 Mae cyfanswm oriau rhaglenni plant yn amrywio rhwng sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ond yn gyffredinol mae wedi aros yn weddol sefydlog ers 2013.

**Figur 3: Oriau a gwariant ar raglenni plant ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus**



<sup>68</sup> Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r gwariant yn ymwneud â theledu sy'n cael ei ddarlledu ac nid yw'n cynnwys unrhyw wariant ar gynnwys ar-lein i blant. Nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried cyfraniadau at y gost o gynhyrchu gan drydydd partion, fel darlledwyr a chwmnïau cynhyrchu annibynnol dramor, o dan drefniadau cynhyrchu ar y cyd, a allai gyfrif am y gostyngiad i ryw raddau. Ofcom, 2018. *Cyfryngau'r Genedl – y DU: 2018*, tudalen 45. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

*Ffynhonnell: Ofcom/darllledwyr Nodyn: Mae oriau allbwn yn seiliedig ar slotiau amser. Dydy'r ffigurau ddim yn ystyried cynnwys i blant sy'n cael ei ddarlledu ar SAC a BBC Alba. Mae'r ffigurau gwariant mewn termau real.*

- 5.4 Yn rhannol, mae'r amrywiadau hyn adlewyrchu'r modelau cyllido a rheoleiddio gwahanol ar gyfer pob darllledwr. Fodd bynnag, fel sy'n cael ei grynhoi yn y Gwahoddiad i Gyfrannu, ceir hefyd nifer o ffactorau ysgogi masnachol a chreadigol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth bresennol pob darllledwr.<sup>69</sup>

## Rhaglenni prif ffrwd yn dal i chwarae rhan bwysig ym mywyd plant

- 5.5 Yn ogystal â rhaglenni plant, mae plant yn gwyllo'r ystod o raglenni prif ffrwd neu gyffredinol a ddarperir gan y darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae ychydig o dan ddwy ran o dair (63%) o'r holl wyllo gan blant o deledu wedi'i ddarlledu ar set deledu yn perthyn i raglenni nad ydynt wedi cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant, fel rhaglenni i deuluoedd neu raglenni ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn.<sup>70</sup>
- 5.6 Mae rhaglenni ar gyfer y teulu yn cael eu darparu ar draws y darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy amrywiaeth o genres rhaglenni, o raglenni adloniant cyffredinol i chwaraeon. Mae rhaglenni fel *The Great British Bake Off*, *Ant & Dec's Saturday Night Takeaway* a *Blue Planet II* yn arbennig o boblogaidd gyda phlant a theuluoedd.<sup>71</sup>
- 5.7 Cafodd pwysigrwydd gwyllo fel teulu hefyd ei amlygu gan nifer o ymatebwyr i'r Gwahoddiad i Gyfrannu, a ddywedodd wrthym fod rhaglenni prif ffrwd yn bwysig i blant gan eu bod yn rhoi cyfle i deuluoedd ddod ynghyd.<sup>72</sup> Caiff hyn ei ategu gan gyfranogwyr yn *Cyfryngau ym Mywyd Plant* Ofcom a ddywedodd wrthym fod gwyllo'r set deledu fel teulu yn dal i gael ei werthfawrogi a'i fod yn aml yn canolbwyntio ar raglenni neu adegau penodol.<sup>73</sup> Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd fod rhaglenni prif ffrwd yn chwarae rhan arbennig o bwysig ar gyfer plant hŷn, sy'n tueddu i fod yn fwy uchelgeisiol yn eu gwyllo ac sy'n gallu chwilio am raglenni sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd hŷn.<sup>74</sup>
- 5.8 Fodd bynnag, wrth ystyried anghenion datblygu a phrofiadau bywyd gwahanol plant, credwn ei bod hefyd yn bwysig bod rhaglenni perthnasol sy'n briodol i oed plant ar gael. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried darpariaeth plant ar draws tri chategori oed: cyn oed ysgol, 6-12 ac 13-15 oed. Rydym yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ond yn cydnabod bod rhywfaint o hyn ar gael fwyfwy ar chwaraewyr fideo ar-alw darllledwyr ac ar-lein.

---

<sup>69</sup> Ofcom, 2017. *Gwahoddiad i Gyfrannu: Adolygiad o gynnwys i blant*, Adran 5. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0023/108284/Review-of-childrens-content.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/108284/Review-of-childrens-content.pdf)

<sup>70</sup> Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith. 2017. Munudau dyddiol ar gyfartaledd y pen o gyfanswm teledu. Plant rhwng 4 a 15 oed.

<sup>71</sup> Ffynhonnell: Ffigurau gwyllo wedi'u cyfuno BARB. Plant rhwng 4 a 15 oed.

<sup>72</sup> Gweler, ee, ymateb Beano Studios, tudalen 2, ymateb ITV tudalen 7, VLV tudalen 6. Mae'r holl ymatebion gan randdeiliaid ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>73</sup> Ofcom, 2017. *Y Cyfryngau ym Mywyd Plant – Canfyddiadau Blwyddyn 4*, tudalen 22. Ar gael yn:


[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/108283/children-media-lives-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/108283/children-media-lives-2017.pdf)

<sup>74</sup> Gweler ee, ymateb Pact tudalen 5, ymateb Beano Studios tudalen 1, ymateb Channel 4 Corporation tudalen 9.

## Mae faint o gynnwys sydd ar gael i blant cyn oed ysgol yn dal yn weddol sefydlog

5.9 Mae faint o raglenni i blant cyn oed ysgol sy'n cael eu dangos ar draws sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi aros yn weddol debyg ers 2006. Roedd 5535 awr o gynnwys i blant cyn oed ysgol yn 2017, sy'n cyfrif am dros hanner yr holl raglenni plant ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.<sup>75</sup>

**Ffigur 4: Oriau o raglenni i blant cyn oed ysgol ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus**



*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr Nodyn: Mae oriau allbwn yn seiliedig ar slotiau amser. Dydy'r ffigurau ddim yn ystyried cynnwys i blant sy'n cael ei ddarlledu ar SAC a BBC Alba.*

5.10 Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4, CBeebies a Channel 5 sy'n darparu'r rhan fwyaf o allbwn ar gyfer plant cyn oed ysgol. O dan Drwydded Weithredu'r BBC, mae'n rhaid i'r sianel CBeebies ddangos amrywiaeth o gynnwys sy'n cefnogi plant cyn oed ysgol yn eu dysgu.<sup>76</sup> Mae'n rhaid i'r BBC hefyd sicrhau ym mhob blwyddyn galendr bod o leiaf 100 awr o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ymddangos ar CBeebies a bod o leiaf 70% o'i raglenni yn gynyrchiadau gwreiddiol sydd wedi cael eu comisiynu gan y BBC.<sup>77</sup>

5.11 Ar ôl iddo brynu Channel 5 yn 2014, ymrwymodd Viacom o'i wirfodd i ddarlledu o leiaf 600 awr o raglenni gwreiddiol i blant o'r DU ar Channel 5 o leiaf tan ddiwedd cyfnod ei

<sup>75</sup> Roedd 11,043 awr o raglenni plant yn 2017.

<sup>76</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*, tudalen 13. Sylwer bod yr amod hwn yn berthnasol i flynyddoedd ariannol o fis Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r Drwydded lawn ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf)

<sup>77</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*, tudalennau 15-16.

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf). Daeth y gofynion hyn i rym ym mis Ionawr 2018.



drwydded yn 2024.<sup>78</sup> Mae Channel 5 yn darlledu rhaglenni i blant o dan ei frand 'Milkshake!' sydd wedi cael ei anelu at blant rhwng 2 a 7 oed.<sup>79</sup> Mae cyfanswm y rhaglenni i blant ar Channel 5 wedi aros yn weddol sefydlog, gan ddim ond disgyn ychydig o 1342 awr yn 2006 i 1316 awr yn 2017. Fodd bynnag, wrth i'r brand 'Milkshake!' ddatblygu, mae cyfran fwy o'r rhaglenni plant ar Channel 5 nawr yn cynnwys rhaglenni i blant cyn oed ysgol. Mae faint o raglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol sydd ar Channel 5 wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall o 26 awr yn 2006 i 1190 awr yn 2017.

## Mae'r rhaglenni hyn yn boblogaidd ymysg plant cyn oed ysgol

- 5.12 Mae cyfran gwyllo cynulleidfaedd cyn oed ysgol o CBeebies a slot 'Milkshake!' Channel 5 wedi tyfu dros y degawd diwethaf. Mae cyfran CBeebies o blant 4-6 oed wedi tyfu o 12.4% yn 2010 i 16.3% yn 2017 ac mae'r gyfran ymysg rhieni a gofalwyr sydd â phlant 0-3 oed hefyd wedi tyfu o 8.1% i 9.3%.<sup>80</sup>
- 5.13 Mae'r gyfran sy'n gwyllo slot 'Milkshake!' Channel 5 o ddydd Llun i Ddydd Gwener (06:00-09:15) wedi tyfu o 17% yn 2010 i 25% yn 2017 ar gyfer plant 4-6 oed ac o 15% i 19% ar gyfer rhieni/gofalwyr sydd â phlant 0-3 oed.<sup>81</sup>

## Mae amrywiaeth o raglenni ar gael ar gyfer cynulleidfaedd cyn oed ysgol

- 5.14 Mae rhaglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol yn genre eang sy'n cynnwys pob rhaglen sydd wedi'i hanelu at blant o dan 6 oed, ac mae'n gallu cynnwys animeiddiadau a rhaglenni gydag actorion.
- 5.15 Er bod cyfran fawr o raglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu (90% o raglenni plant ar Channel 5 yn 2017, a 97% ar CBeebies), roedd y rhai a ymatebodd i'r Gwahoddiad i Gyfrannu yn dweud bod hyn yn llai o destun pryder i blant iau, gan fod plant iau yn mwynhau ailddarllediadau o'u hoff raglenni<sup>82</sup>, a gan fod y gynulleidfa yn cael ei hadnewyddu mor aml.<sup>83</sup>
- 5.16 Mae rhaglenni 'Milkshake!' ar Channel 5 yn cynnwys nifer o raglenni byr wedi'u hanimeiddio sy'n cynnwys lleisiau Prydeinig, gyda nifer o'r rhain yn cynnwys cymeriadau Prydeinig adnabyddus wedi'u hanimeiddio fel Peppa Pig, Fireman Sam, Thomas the Tank

---

<sup>78</sup> Ymateb Viacom, tudalen 1. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>79</sup> Channel 5, *Rhaglenni Plant*. <http://www.channel5.com/childrens-programming/>. Cyrchwyd 16 Gorffennaf 2018.

<sup>80</sup> Ffynhonnell: BARB, blynyddoedd calendr 2010 a 2017, % cyfran o'r gwyllo. Cynulleidfaedd plant a HWC 0-3 (Gwraig tŷ = y sawl sy'n gwneud penderfyniadau gwario'r cartref. Gyda phlant 0-3 = presenoldeb plant yn y cartref 0-3 oed (gallai fod oedranau eraill yn y cartref ac nid yw'r wraig tŷ o reidrwydd yn rhiant).

<sup>81</sup> Ffynhonnell: BARB, blynyddoedd calendr 2010 a 2017, % cyfran o'r gwyllo. Cynulleidfaedd plant a HWC 0-3 (Gwraig tŷ = y sawl sy'n gwneud penderfyniadau gwario'r cartref. Gyda phlant 0-3 = presenoldeb plant yn y cartref 0-3 oed (gallai fod oedranau eraill yn y cartref ac nid yw'r wraig tŷ o reidrwydd yn rhiant). Nid ydy Channel 5 yn cynnwys +1 ond mae'n cynnwys HD.

<sup>82</sup> Children's Media Foundation, tudalen 4. Mae'r holl ymatebion gan randdeiliaid ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>83</sup> Ymateb Pact, tudalen 8. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

Engine, a Noddy. Mae rhaglenni ar 'Milkshake!' hefyd yn cynnwys rhaglenni ffeithiol fel *Milkshake Monkey!* a chyfresi dogfen fel *The Secret Life of Puppies*.<sup>84</sup>

- 5.17 Roedd 96% o'r rhaglenni ar CBeebies yn cael eu dosbarthu fel rhai ar gyfer plant cyn oed ysgol yn 2017. Er mwyn adlewyrchu rôl unigryw'r BBC ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae mesurau rheoleiddio yn cael eu dylunio i gefnogi amrywiaeth a gwreiddioldeb ar CBeebies. Mae rhaglenni ar CBeebies yn cynnwys<sup>85</sup>:
- a) cyfresi drama gydag actorion fel *Katie Morag* ac *Apple Tree House*;
  - b) adloniant cyn ysgol gydag actorion, gan gynnwys ailddarllediadau o raglenni poblogaidd o'r archif fel *Show Me Show Me*, *Teletubbies*, ac *In the Night Garden*, yn ogystal â rhaglenni mwy diweddar fel *Biggleton* a *Justin's House*;
  - c) rhaglenni ffeithiol fel *Do You Know*; ac
  - d) animeiddiadau ar gyfer plant cyn oed ysgol fel *Rastamouse* a *Go Jetters*.
- 5.18 At ei gilydd, mae darparu rhaglenni i blant cyn oed ysgol wedi bod yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ac maen nhw'n boblogaidd ymysg plant, rhieni a gofawyr. Y BBC ydy'r darparwr mwyaf o raglenni i blant cyn oed ysgol ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a byddwn yn ystyried ei berfformiad fel rhan o'n cyfrifoldebau o dan y Siarter.

## **Mae cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer plant 6-12 oed wedi cynyddu ond mae'r gwylio wedi disgyn ychydig**

- 5.19 Y BBC ac ITV ydy'r prif ddarparwyr rhaglenni teledu ar gyfer plant 6-12 oed. Maen nhw'n darparu'r rhain yn bennaf drwy eu sianeli sy'n benodol ar gyfer plant sef CBBC a CITV. Mae CBBC yn sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac mae CITV yn sianel hollol fasnachol. Yn yr adroddiad yma rydym yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- 5.20 Roedd cyfanswm yr oriau o raglenni ar CBBC ac ITV sydd wedi'u hanelu at blant 6-12 oed wedi cynyddu o 4,424 awr yn 2006 i 5,174 flwyddyn yn 2017. Mae'r ffaith bod CBBC wedi ymestyn ei amserlenni i ddarlledu gyda'r nos (am ddwy awr arall tan 9pm) yn 2016 yn egluro'r cynnydd hwn i raddau helaeth.
- 5.21 Roedd cyfanswm yr oriau o raglenni ar CBBC wedi cynyddu o 3747 y flwyddyn yn 2006, i 4,849 yn 2017.<sup>86</sup> Yn 2017, dangosodd ITV 325 awr o raglenni plant a oedd wedi disgyn o 677 awr yn 2006, ar ôl lansio CITV yn 2006.<sup>87</sup> Mae hyn yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar yr un pryd ar CITV ar fore dydd Sadwrn a bore dydd Sul.

---

<sup>84</sup> Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o raglenni 'Milkshake!' a gynhaliwyd ar gyfer yr wythnosau yn dechrau 2 Ebrill a 30 Ebrill 2018.

<sup>85</sup> Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o raglenni ar CBeebies a gynhaliwyd ar gyfer yr wythnosau yn dechrau 2 Ebrill a 30 Ebrill 2018.

<sup>86</sup> Nid ydy'r ffigurau hyn yn cynnwys rhaglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol.

<sup>87</sup> Nid ydy'r ffigurau hyn yn cynnwys rhaglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol.

- 5.22 Ers mis Ionawr 2018, o dan Drwydded Weithredu'r BBC, ym mhob blwyddyn galendr mae'n rhaid i o leiaf 72% o gyfanswm oriau'r rhaglenni ar CBBC fod yn gynyrchiadau gwreiddiol wedi'u comisiynu gan y BBC, gydag o leiaf 400 awr o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.<sup>88</sup> Mae rhaglenni gwreiddiol o'r DU i blant sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar ITV wedi disgyn o 158 awr yn 2006 i 47 yn 2017, gydag 1% o'r rhaglenni ar CITV yn 2017 yn gynnwys gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf.<sup>89</sup>
- 5.23 Rydym yn nodi bod cyfran gwyllo plant 6-12 oed o CBBC wedi disgyn o 7.3% yn 2010 i 5.6% yn 2017. Er bod rhaglenni ITV i deuluoedd yn gwneud yn dda ymysg plant, mae cyfran ITV o blant 6-12 oed ar gyfer ei ddarllediadau CITV ar yr un pryd wedi disgyn o 6.3% i 3.8%. Mae cyfran CITV o blant 6-12 oed wedi codi rhywfaint yn ystod yr un amserlen o 2.4% i 2.9%.<sup>90</sup>

### **Bu newidiadau hefyd yn y dewis a'r amrywiaeth o genres sydd ar gael i wylwyr yn y grŵp oed hwn**

- 5.24 Yn ogystal â chyfanswm yr oriau a'r buddsoddiad mewn rhaglenni ar gyfer plant 6-12 oed, rydym hefyd yn ystyried amrywiaeth y ddarpariaeth bresennol.
- 5.25 Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu rhaglenni amserlen-gymysg ar gyfer plant dan 13 oed. Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn helpu i gynnal y cymysgedd hwn o genres ar y sianel drwy fynnu ei bod yn rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob blwyddyn ar CBBC bod o leiaf 1,000 o oriau'n cael eu dyrannu i ddrama, bod 675 o oriau'n cael eu dyrannu i raglenni ffeithiol, a bod 85 awr yn cael eu dyrannu i newyddion.<sup>91</sup>
- 5.26 Ar ITV, mae cyfanswm oriau animeiddiadau i blant wedi disgyn o 423 yn 2006 i 88 yn 2017, ac mae darpariaeth rhaglenni adloniant i blant wedi cynyddu o 51 awr yn 2007 i 234 awr yn 2017, gydag ITV yn comisiynu rhaglenni fel *Bear Grylls' Survival School* a'r rhaglen gystadleuaeth i blant *Spy School*. Ni chafodd unrhyw ddrama i blant ei dangos ar ITV yn 2017.
- 5.27 Mae hi'n bwysig bod plant 6-12 oed yn gallu cael gafael ar raglenni newydd sydd wedi cael eu gwneud yn y DU mewn amrywiaeth o genres, wrth ystyried yr amrywiaeth yn nymuniadau ac yn anghenion y grŵp oed hwn ac er mwyn sicrhau eu bod yn elwa o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus fel yr oedd y Senedd Brydeinig wedi'i fwriadu.

---

<sup>88</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf)

<sup>89</sup> Data wedi'i ddarparu gan ITV. Yn 2017, 58 allan o'r 5257 awr o raglenni a ddangoswyd ar CITV oedd yn rhai gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf.

<sup>90</sup> Ffynhonnell: BARB. Rhwydwaith. 2010 a 2017. 6-12 oed. % cyfran gwyllo CBBC a CITV ar gyfer yr holl oriau. Cyfran ITV ar gyfer 06:00-09:25 ar benwythnos.

<sup>91</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf)

## Ar hyn o bryd mae prinder rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant hŷn

- 5.28 Mae ein data'n awgrymu nad oes unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu rhaglenni'n benodol ar gyfer plant 13-15 oed ar hyn o bryd. Yn ein hymchwil, roedd 30% o blant 12-15 oed wedi dweud wrthym nad oes digon o raglenni ar gyfer plant eu hoed nhw<sup>92</sup> ac mae nifer o'r ymatebwyr i'r Gwahoddiad i Gyfrannu yn mynegi pryderon gwahanol am ddiffyg darpariaeth ar gyfer plant hŷn, gyda nifer yn canolbwyntio ar raglenni ar gyfer plant 12-15 oed.<sup>93</sup>
- 5.29 Mae gan C4C ddyletswydd i ddarparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn (y mae C4C yn eu diffinio fel plant 10-14 oed), yn wahanol i fod yn benodol ar gyfer y grŵp oed hwn. Strategaeth C4C felly ydy comisiynu rhaglenni sydd o ddiddordeb i blant 10-14 oed ond sydd ag apêl prif ffrwd, a darlledu'r rhaglenni hyn yn ystod oriau brig cyn 9 o'r gloch ar Channel 4. Mae'r rhaglenni a gafodd eu darlledu yn 2017 yn cynnwys *Lego Masters*, *Child Genius* a *Gogglesprogs*, ac roedd y cwbl wedi gwneud yn dda ymysg gwylwyr 10-14 oed. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae C4C wedi cynyddu ei fuddsoddiad yn y math yma o raglen. Yn 2017, gwariodd £7m a darparodd 21 awr (18 awr yn 2016).<sup>94</sup>
- 5.30 Cyhoeddodd y BBC yn ddiweddar y byddai'n darparu amrywiaeth o gynnwys newydd ar gyfer plant 13-15 oed a fyddai'n cael ei ddangos ar BBC iPlayer, mewn ymgyrch i geisio llenwi bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn.<sup>95</sup> Bwriad y BBC ydy darparu'r rhain fel cyfresi y mae modd eu gwyllo yn syth ar ôl ei gilydd.
- 5.31 At ei gilydd rydym yn croesawu'r mentrau gan y BBC a C4C i gynyddu eu buddsoddiad i ymgysylltu â phlant hŷn a byddwn yn monitro datblygiadau pellach. Fodd bynnag, rydym yn poeni oherwydd y ddarpariaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd yn benodol ar gyfer y grŵp hwn.

## Mae ystod gyfyngedig o raglenni plant sy'n helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas

- 5.32 Ar draws pob grŵp oed, roeddem wedi ystyried yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael i blant ac a oedd unrhyw themâu neu genres sydd â darpariaeth gyfyngedig. Mae'r Dibenion Cyhoeddus sydd wedi cael eu gosod gan y Senedd Brydeinig yn rhoi fframwaith i ni wneud hyn.

---

<sup>92</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, tudalen 97. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0020/108182/childrens-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/108182/childrens-media-use-attitudes-2017.pdf)

<sup>93</sup> Gweler ee ymateb Animation UK tudalen 3, ymateb COBA tudalen 13, yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol tudalen 11, Jeanette Steemers tudalen 1, ymateb Messenger Davies, M tudalen 2, Personal Managers' Association tudalen 5, ymateb Voice of the Viewer and Listener tudalen 4. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0023/116519/childrens-content-review-update.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/116519/childrens-content-review-update.pdf)

<sup>94</sup> Ofcom, 2018. *Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4 2017/18*, tudalen 18. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0012/114402/Letter-Channel-4-Statement-Media-Content-Policy-201718.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/114402/Letter-Channel-4-Statement-Media-Content-Policy-201718.pdf)

<sup>95</sup> Datganiadau i'r Wasg, 4 Gorffennaf 2018. Y BBC yn cyhoeddi cynnwys newydd i blant yn eu harddegau.

<https://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2018/teen-content>. Cyrchwyd 16 Gorffennaf 2018.

- 5.33 Yng ngoleuni ein dadansoddiad, fe wnaethom ganolbwyntio ar y cynnwys sydd ar gael sy'n cefnogi cynulleidfaoedd ifanc i ddeall y byd o'u cwmpas. Mae cynnwys newyddion gan ddarlledwyr yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae hefyd yn gallu helpu i wrthbwysio newyddion ffug a gwybodaeth gamarweiniol, drwy ddarparu ffordd o gael gafael ar wybodaeth gywir a diduedd sy'n cael ei rheoleiddio o dan y Cod Darlledu. Er y bydd rhai plant yn gwyllo rhaglenni newyddion a ffeithiol prif ffrwd, mae rhaglenni newyddion a rhaglenni ffeithiol sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant yn gallu egluro materion cyfoes mewn ffordd ddifyr sy'n sensitif i oed.
- 5.34 Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod gan radio, teledu a darlledwyr traddodiadol ran bwysig i'w chwarae o ran y ddarpariaeth newyddion i blant. Teledu ydy'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd ar gyfer newyddion ymysg plant 12-15 oed sy'n dweud bod ganddyn nhw ddi-ddordeb mewn newyddion (64%), ac mae'r rheini sydd rhwng 12 a 15 oed sy'n defnyddio'r teledu fel un o'u prif ffynonellau newyddion hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod yr adroddiadau newyddion yn wir bob amser neu gan amlaf (59%), o'i gymharu â 32% ymysg y rheini sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.<sup>96</sup> Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ymchwil wedi'i ddiweddarau ar agweddau plant at newyddion, sy'n adlewyrchu'r rhain fel patrymau sy'n parhau.
- 5.35 Mae nifer o randdeiliaid yn awgrymu nad oes digon o raglenni newyddion na rhaglenni ffeithiol ar gyfer plant.<sup>97</sup> Mae'n rhaid i'r BBC ddangos o leiaf 85 awr o raglenni newyddion ar CBBC ym mhob blwyddyn ariannol. Yn 2017, cafodd 94 awr o newyddion eu darlledu ar CBBC (wedi'u hanelu at blant 6-12 oed) drwy'r rhaglen newyddion i blant *Newsround*. Nid oes unrhyw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn darparu rhaglenni newyddion sy'n benodol ar gyfer plant.
- 5.36 Mae rhaglenni ffeithiol i blant hefyd yn chwarae rhan drwy gefnogi dealltwriaeth plant o'r byd drwy raglenni llawn gwybodaeth sy'n cyflwyno cysyniadau a syniadau mewn ffyrdd mae modd i blant eu deall. Yn yr un modd â newyddion i blant, y tu allan i'r BBC cyfyngedig iawn ydy'r rhaglenni ffeithiol ar gyfer plant. Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu 675 awr o raglenni ffeithiol ar gyfer plant bob blwyddyn ar CBBC.<sup>98</sup> Ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wahân i'r BBC, yn 2006 roedd 102 awr o raglenni plant wedi cael eu categorio fel rhai ffeithiol; yn 2017 roedd hyn wedi disgyn i ddim ond tair awr, ac roedd y cyfan ar ITV.

---

<sup>96</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, Adran 10. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf)

<sup>97</sup> Ymateb VLV tudalen 10, ymateb yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol tudalen 10, ymateb Jeanette Steemers tudalen 5, ymateb y Public Media Alliance tudalen 4. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>98</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*, tudalen 19. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf)

**Ffigur 5: Nifer yr oriau o raglenni newyddion a rhaglenni ffeithiol i blant ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus**



*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr Nodyn: Mae oriau allbwn yn seiliedig ar slotiau amser. Dydy'r ffigurau ddim yn ystyried cynnwys i blant sy'n cael ei ddarlledu ar S4C a BBC Alba.*

## Mae hi'n bwysig bod plant yn y DU yn gweld eu bywydau'n cael eu hadlewyrchu ar y sgrin

- 5.37 Wrth ofyn pa mor bwysig yw cael cynnwys sy'n eu hadlewyrchu nhw a'u bywydau, mae plant rhwng 12 a 15 oed yn fwyaf tebygol o ddweud ei bod yn bwysig bod yr hyn maen nhw'n ei wyllo yn dangos pobl yr un oedran â nhw (53%), wedi'i ddilyn gan bobl yn gwneud yr un math o bethau ag y maen nhw/eu ffrindiau yn ei wneud (49%), dangos pobl sy'n byw yn yr un rhan o'r wlad â nhw (23%) a phobl sy'n edrych yn debyg iddyn nhw (22%).<sup>99</sup>
- 5.38 Caiff pwysigrwydd y mathau hyn o gynnwys ei ategu gan nifer o randdeiliaid a ymatebodd i'r Gwahoddiad i Gyfrannu. Maen nhw'n honni bod cynnwys i blant sydd â llais DU yn bwysig, gan ei fod yn helpu plant i ddysgu am eu byd, ffurfio hunaniaeth ddiwylliannol, a datblygu eu dealltwriaeth o'u hunain ac o eraill.<sup>100</sup>
- 5.39 Fodd bynnag, nid oes lleiafrif sylweddol o blant yn y DU yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar deledu. Roedd pedwar deg un y cant o blant 12-15 oed a 33% o


<sup>99</sup> Ofcom, 2017. *Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau*, Adran 8. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/108182/children-parents-media-use-attitudes-2017.pdf)

<sup>100</sup> Gweler, ee, ymateb Boom Cymru tudalen 2, ymateb yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol tudalen 10, ymateb Máire Messenger tudalen 2, ymateb Pact tudalen 8, ymateb y Public Media Alliance tudalen 3, ymateb Sandford St Martins Trust tudalen 3, ymateb VLV tudalen 5. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

blant 8-11 oed yn credu nad oedd digon o raglenni yn dangos plant yn byw yn yr un rhan o'r wlad â nhw, ac roedd 35% o blant 8-11 oed (a 34% o blant 12-15 oed) yn teimlo nad oedd digon o raglenni a oedd yn dangos plant a oedd yn edrych fel nhw.<sup>101</sup>

**Ffigur 5: Agweddau at raglenni teledu, ymysg plant rhwng 8 a 15 oed**



CC4A/B/C/D – Rydw i'n mynd i ddweud rhai pethau am y rhaglenni teledu rydych chi'n eu gwyllo. Pa ateb fydddech chi'n ei ddewis ar gyfer pob un (atebion wedi'u cynnig, un cod). Sail: Plant rhwng 8 a 15 oed sy'n gwyllo'r teledu yn y cartref neu'n rhywle arall (488 rhwng 8 ac 11 oed, 467 rhwng 12 a 15 oed). Ffynhonnell: Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad ar agweddau a defnydd o gyfryngau 2017, tudalen 97.

5.40 Gallai teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol fod yn fwy aciwt ymysg rhai grwpiau o blant. Yn ei ymateb i'n Gwahoddiad i Gyfrannu, tynnodd Girlguiding sylw at y ffaith nad ydy merched a menywod ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol gan yr hyn maen nhw'n ei weld ar y sgrin.<sup>102</sup>

### Mae rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU ar gyfer plant yn hollbwysig er mwyn cynrychioli plant y DU ar y sgrin, ond mae'r ddarpariaeth yn disgyn

5.41 Mae rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU yn ddirprwy pwysig i sicrhau bod plant y DU yn gweld pobl fel nhw yn cael eu cynrychioli ar y sgrin, er nad ydy gwneud rhaglenni yn y DU yn gwarantu y bydd gan y rhaglenni lais DU.

5.42 Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r Gwahoddiad i Gyfrannu yn dadlau nad oes digon o fuddsoddiad mewn rhaglenni newydd o'r DU ar gyfer plant.<sup>103</sup> Dywedodd rhanddeiliaid wrthym hefyd bod y gyfran uchel o ailddarllediadau o raglenni plant ar y gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu gwasanaeth annigonol i blant oed ysgol.<sup>104</sup>

<sup>101</sup>Ofcom, Tachwedd 2017. Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau, tudalen 97

<sup>102</sup> Ymateb Girlguiding, tudalen 2. Mae'r holl ymatebion gan rhanddeiliaid ar gael yn:


<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

<sup>103</sup> Gweler, ee, ymateb C4C tudalen 9, ymateb VLV tudalen 10, ymateb y Public Media Alliance tudalen 3, ymateb Jeanette Steemers tudalen 1, ymateb Beano Studios tudalen 6.

<sup>104</sup>Gweler, ee, ymateb Pact t8; ymateb CMF t4.

Mae ein data yn dangos bod buddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni plant gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn yn sylweddol dros y tymor hir. Yn 2017 roedd sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd wedi gwario £70.4m ar raglenni plant o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf, o'i gymharu â £116.4m mewn termau real yn 2006.

**Ffigur 6: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni plant gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a nifer yr oriau**



*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr Nodyn: Mae oriau allbwn yn seiliedig ar slotiau amser. Dydy'r ffigurau ddim yn ystyried cynnwys i blant sy'n cael ei ddarlledu ar SAC a BBC Alba. Mae'r ffigurau gwariant mewn termau real.*

- 5.43 Caiff y gostyngiad hwn mewn buddsoddiad ei adlewyrchu gan ostyngiad yn nifer yr oriau o raglenni gwreiddiol i blant sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 6.
- 5.44 Mae twf mewn buddsoddiad trydydd parti ar draws pob genre (nid plant yn unig) a allai wneud iawn i ryw raddau am y gostyngiad mewn buddsoddiad gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.<sup>105</sup> Rydym hefyd yn nodi bod buddsoddiad yn cael ei wneud mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU y tu hwnt i sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a dywed COBA fod ei aelodau a arolygwyd wedi gwario £15.6m y flwyddyn ar gyfartaledd ar amrywiaeth o raglenni plant o'r DU a gafodd eu dangos am y tro cyntaf, yn ystod y tair blynedd diwethaf.<sup>106</sup> Fodd bynnag, mae ein ffocws ar yr hyn sydd ar gael i blant ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus am ddim.

<sup>105</sup> Ofcom, 2018. *Cyfyngau'r Genedl: DU 2018*, tudalen 6. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf)

<sup>106</sup> Ymateb COBA, tudalen 3. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>



- 5.45 Mae darparu rhaglenni plant gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn amrywio yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, gan adlewyrchu eu modelau cyllido a rheoleiddio gwahanol. Caiff y ddarpariaeth gyfredol ei chrynhai isod:
- a) O dan y Drwydded Weithredu mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob blwyddyn bod o leiaf 100 awr o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar CBeebies a 400 awr ar CBBC.<sup>107</sup>
  - b) Mae ITV wedi lleihau nifer yr oriau o raglenni newydd o'r DU i blant sydd ar ei brif sianel o 158 yn 2006 i 47 yn 2017. Hefyd, mae gan ITV sianel fasnachol i blant sydd wedi'i hanelu at blant 6-12 oed, sef CITV. Dim ond cyfran fach o'r rhaglenni a ddangoswyd ar CITV yn 2017 oedd yn newydd ac wedi'u creu yn y DU.<sup>108</sup>
  - c) Nid yw Channel 4 yn dangos unrhyw raglenni sydd wedi'u creu'n arbennig ar gyfer plant. Mae dyletswydd ar C4C i ddarparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn (plant 10-14 oed yn ôl diffiniad C4C), ac fe ddangoswyd 21 awr o gynnwys o'r fath yn 2017.<sup>109</sup>
  - d) Mae Channel 5 wedi lleihau nifer yr oriau o raglenni wedi'u creu yn y DU sydd wedi'u hanelu'n bennaf at blant cyn-ysgol – o 150 awr yn 2006 i 32 awr yn 2017.

### **Mae drama plant yn y DU yn gallu helpu plant i weld eu bywydau'n cael eu hadlewyrchu ond nid oes dim darpariaeth y tu hwnt i'r BBC**

- 5.46 Fel yr amlinellir uchod, mae hi'n bwysig bod plant yn gweld plant fel nhw ar y sgrin, gyda lleisiau ac acenion fel eu rhai nhw, ac mewn lleoliadau ac yn gwneud gweithgareddau sy'n gyfarwydd. Mae'r lefel o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud yn y DU yn un mesur, fel ydy argaeledd amrywiaeth o genres lle gallai plant weld eu bywydau'n cael eu hadlewyrchu.
- 5.47 Mae amrywiaeth o genres yn gallu cyfrannu at y gynrychiolaeth hon o fywydau plant ar y sgrin, gan gynnwys animeiddiadau (er enghraifft, mae modd cynnwys lleisiau a chymeriadau o'r DU) ac adloniant i blant sy'n cynnwys actorion. Rydym yn canolbwyntio yma ar ddrama gydag actorion gan fod nifer o'r ymatebwyr i'r gwahoddiad i gyfrannu yn mynegi pryder bod buddsoddiad mewn drama o'r DU gydag actorion ar gyfer plant yn lleihau.<sup>110</sup>
- 5.48 Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn mynnu bod y BBC yn sicrhau bod o leiaf 1,000 o ddrama ar CBBC bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae nifer yr oriau o ddrama i blant ar sianeli

---

<sup>107</sup> Ofcom, 2017. *Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU*. Ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf). Byddwn yn adrodd ar eu perfformiad cyffredinol a'u hamodau blynyddol yn ystod tymor yr hydref y flwyddyn nesaf.

<sup>108</sup> Ffynhonnell: Ofcom/ITV. Yn 2017, 58 awr allan o'r 5257 awr o raglenni a ddangoswyd ar CITV oedd yn rhai gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf.


<sup>109</sup> Ofcom, 2018. *Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4 2017/18*, tudalen 18. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0012/114402/Letter-Channel-4-Statement-Media-Content-Policy-201718.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0012/114402/Letter-Channel-4-Statement-Media-Content-Policy-201718.pdf)

<sup>110</sup> Gweler, ee, ymateb COBA tudalen 9, ymateb Maire Messenger Davies, tudalen 9, ymateb y Personal Managers' Association tudalen 5, ymateb VLV tudalen 10, ymateb Boom Cymru tudalen 5. Ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/childrens-content-review>

darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar wahân i'r BBC wedi disgyn i ddim (gweler Ffigur 7 isod). Er bod dros 200 awr o ddrama i blant wedi cael ei ddarlledu ar ITV, Channel 4 a Channel 5 gyda'i gilydd yn 2006, ers 2015 ni chafodd yr un awr ei dangos ar unrhyw un o'r tair sianel hyn.

**Ffigur 7: Oriau o ddrama plant ar ITV, Channel 4 a Channel 5**



*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr Nodyn: Mae oriau allbwn yn seiliedig ar slotiau amser. Dydy'r ffigurau ddim yn ystyried cynnwys i blant sy'n cael ei ddarlledu ar SAC a BBC*

5.49 Mae drama o'r DU a rhaglenni eraill gydag actorion sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd teuluol neu brif ffrwd yn gallu chwarae rhan bwysig drwy ganiatáu i blant weld eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y sgrin. Fodd bynnag, rydym yn credu wrth ystyried anghenion datblygu a phrofiadau bywyd penodol plant o bob oed, bod dadleuon cryf yn dal i fodoli ar gyfer rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant.

## 6. Casgliadau a'r camau nesaf

### Rydym wedi nodi tri maes sy'n peri pryder o ran y ddarpariaeth bresennol o raglenni plant ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

- 6.1 Mae hi'n bwysig bod cynnwys perthnasol sy'n briodol i oed yn cael ei wneud yn benodol ar gyfer plant. Ar ôl adolygu ystod eang o dystiolaeth, rydym yn credu bod angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adfywio eu dulliau o ran yn hyn maen nhw'n ei gynnig i gynulleidfaedd ifanc a sut maen nhw'n gwneud hynny. Mae hynny'n golygu creu mwy o raglenni gwreiddiol o'r DU y mae plant yn eu gwerthfawrogi, yn enwedig yn y meysydd canlynol:
- a) Y diffyg rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel i blant sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant hŷn ar draws pob genre rhaglen;
  - b) Yr ystod gyfyngedig o raglenni plant sy'n helpu plant o bob oed i ddeall y byd o'u cwmpas; ac,
  - c) Yr ystod gyfyngedig o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n caniatáu i blant y DU o bob oed weld eu bywydau, yn eu holl amrywiaeth, wedi'u hadlewyrchu ar y sgrin.
- 6.2 Yn yr adrannau canlynol rydym yn nodi sut rydym yn meddwl y gallai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ymateb i'r pryderon hyn a beth fydd ein camau nesaf.

### Mae hi'n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i esblygu i adlewyrchu'r newidiadau yn arferion gwyllo cynulleidfaedd ifanc

- 6.3 O ystyried y gystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr ar-lein, byddai o fantais tymor hir i'r darlledwyr greu rhaglenni sy'n ysbrydoli ac yn diddanu cynulleidfaedd o oedran ifanc, er mwyn ffurfio perthnasoedd â nhw a fydd yn para gydol eu hoes. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus, o ran darparu cynnwys gwreiddiol ac o ansawdd uchel o'r DU i bawb, yn parhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 6.4 Mae gan Ofcom ran bwysig i'w chwarae drwy helpu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i addasu i'r newidiadau mawr yn y farchnad ac yn ymddygiad cynulleidfaedd. O ganlyniad i'r newid yn arferion gwyllo cynulleidfaedd ifanc, rydym o'r farn y byddai pennu cwotâu ar gyfer rhaglenni plant ar y prif sianeli teledu darlledu cyhoeddus masnachol yn llai perthnasol.
- 6.5 Er mwyn cyrraedd plant heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ddarlledwyr fanteisio ar y cyfleoedd mae'r rhyngryd yn eu cynnig er mwyn sicrhau bod cynulleidfaedd ifanc yn cael mynediad at raglenni o ansawdd uchel, ond mewn ffyrdd sy'n addas ac yn adlewyrchu eu harferion gwyllo.
- 6.6 Rydym yn credu bod darlledwyr mewn safle da i allu ymchwilio i ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd plant, i ddarparu cynnwys maen nhw ei eisiau a'i angen. Rydym eisiau eu cefnogi a'u hannog i wneud hyn. Mae gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus

amrywiaeth o wasanaethau portffolio a digidol yn barod, ac mae hyn yn rhoi sylfaen gref iddynt adeiladu arni.

## Gweithredu a'r camau nesaf

- 6.7 **Rydym wedi ysgrifennu at ITV, Channel 4 Corporation a Channel 5, yn gofyn iddynt ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'n pryderon fel mater o flaenoriaeth.** Rydym yn disgwyl i gynlluniau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol nodi sut byddant yn gwella eu darpariaeth i blant o ran uchelgais creadigol, buddsoddiad a chymysgedd o genres ar draws eu hystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, ac yn enwedig nodi sut byddant yn defnyddio'r rhyngwrwd.
- 6.8 Fel rhan o'r cynlluniau hyn rydym eisiau gweld sut bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn meithrin eu perthnasoedd presennol â chynhyrchwyr, dosbarthwyr a llwyfannau annibynnol, neu'n datblygu partneriaethau creadigol newydd â'i gilydd. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r trafodaethau â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn ystod y misoedd nesaf ac yn disgwyl asesu eu cynlluniau terfynol erbyn diwedd mis Mawrth 2019.<sup>111</sup> Byddwn yn adrodd ar wytnwch y cynlluniau hyn ochr yn ochr â'r adroddiad Cyfryngau'r Genedl nesaf, a gyhoeddir yn ystod haf 2019. Byddwn yn ystyried effeithiolrwydd y cynlluniau hyn fel rhan o'r broses aildrwyddedu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nesaf.<sup>112</sup> Ar ben hynny, byddwn yn edrych ar gynlluniau'r BBC i ddarparu ar gyfer plant fel rhan o'n cyfrifoldebau o dan Siarter a Chytundeb y BBC.<sup>113</sup>
- 6.9 **Byddwn yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae plant yn defnyddio cynnwys ar-lein.** Mae heriau o ran deall defnydd plant a phobl ifanc o lwyfannau ar-lein a dim ond ychydig o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd.<sup>114</sup>
- 6.10 Rydym yn bwriadu cynnal ymchwil ansoddol a manwl i rôl y llwyfannau hyn, gan gynnwys sut mae plant yn dewis rhwng ffynonellau cynnwys, yn ogystal â sut maen nhw'n defnyddio cynnwys ac yn gwneud penderfyniadau yn ei gylch ar ôl ei gyrraedd. Bydd hyn yn sail i'n trafodaethau parhaus â'r llwyfannau a'r darlledwyr. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad gydag eiriolwyr, academyddion, darlledwyr a chynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â phlant yn nes ymlaen eleni er mwyn parhau i ymestyn y ddadl ynglŷn â sut mae plant o bob oed yn archwilio'u hunaniaeth drwy gyfryngau ac yn eu dysgu eu hunain am y byd o'u cwmpas.

---

<sup>111</sup> Yn Neddf yr Economi Ddigidol, fe gyflwynwyd gofyniad bod C4C yn cynhyrchu Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau ('Datganiad') blynyddol yn nodi sut aeth ati i gyflawni ei gylch gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol a sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn sydd i ddod. Wrth baratoi'r Datganiad, rhaid i C4C ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom ac ymgynghori ag Ofcom. Byddwn yn asesu darpariaeth C4C ar gyfer plant hyn wrth adolygu eu Datganiad yn 2019.

<sup>112</sup> Bydd trwyddedau sianeli 3, 4 a 5 yn dod i ben yn 2024.

<sup>113</sup> BBC, 2017. *Siarter a Chytundeb*. Ar gael yn:

[https://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory\\_framework/charter\\_agreement.html](https://www.bbc.co.uk/bbctrust/governance/regulatory_framework/charter_agreement.html)

<sup>114</sup> Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'n hymchwil meintiol presennol ar ddefnydd plant o lwyfannau ar-lein a'u hagwedd tuag atynt. Ar gael yn: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0015/116520/Annex-Research-Childrens-Content-Consumption.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/116520/Annex-Research-Childrens-Content-Consumption.pdf)